Medi 2021

# Amserlen Etholiad Myfyriwr-lywodraethwr

1. Bydd rôl y Myfyriwr-lywodraethwr yn cael ei hyrwyddo rhwng **20 Medi a 1 Hydref 2021** ar y bwrdd gwaith a thrwy neges destun/e-bost i'r holl fyfyrwyr ac ar Facebook a Twitter.

2. Mae rôl y Myfyriwr-lywodraethwr ar agor i **bob** myfyriwr, amser llawn neu ran-amser, ar draws pob maes astudio a phob campws.

3. Bydd **un** myfyriwr-lywodraethwr yn cael ei ethol mewn etholiad sydd ar agor i bob myfyriwr yn y Coleg gan y rhai a enwebwyd gan unrhyw fyfyriwr.

4. Bydd ffurflenni cais ar gael yn electronig [trwy ddolen mewn neges destun/e-bost/Faceook/Twitter ac ati] a rhaid llenwi a chyflwyno'r ffurflen erbyn hanner nos ar **1 Hydref 2021.**

5. Mae Sharon Barron, Clerc y Bwrdd, ar gael i ateb unrhyw gwestiynau a gall drafod ceisiadau ag unigolion cyn eu cyflwyno os bydd angen. sharon.barron@coleggwyrabertawe.ac.uk

6. Bydd unrhyw un sy'n llenwi ffurflen cais yn cael ei wahodd i gyfarfod gyda Sharon Barron ar **4 Hydref 2021 am 6.00pm** i drafod y rôl a chadarnhau ei fod am barhau.

7. Os bydd mwy nag un ymgeisydd bydd etholiad yn cael ei gynnal.

8. Gall ymgeiswyr baratoi a dosbarthu deunydd yr ymgyrch* cyn ac yn ystod yr etholiad.

9. Bydd yr etholiad yn rhedeg rhwng **11 a 15 Hydref 2021.**

10. Gall myfyrwyr bleidleisio ar y bwrdd gwaith gweithredol gan ddefnyddio eu rhif adnabod myfyriwr.

11. Bydd yr ymgeisydd sydd â'r nifer uchaf o bleidleisiau yn cael ei gyflwyno i'w benodi i Fwrdd y Gorfforaeth ac, yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd, bydd yn gwasanaethu fel Myfriwr-lywodraethwr am flwyddyn.

12. Os yw’r bleidlais yn gyfartal, bydd y canlyniad yn cael ei benderfynu trwy daflu darn arian.

13. Os na fydd unrhyw enwebeion bydd estyniad o wythnos i’r dyddiad cau ar gyfer enwebeion yn ogystal ag estyniad i gyfnod yr etholiad.

14. Bydd yr ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad yr etholiad ar y dydd Llun ar ôl i’r bleidlais ddod i ben.

15. Gwahoddir yr ymgeisydd llwyddiannus i ddod i gyfarfod cyntaf y Bwrdd yn dilyn ei ethol.

*Ymgyrchu
1. Gall ymgeiswyr ddechrau ymgyrchu **ar ddiwedd** y cyfnod enwebu.
2. Rhaid i unrhyw byst y cyfryngau cymdeithasol, posteri neu ddeunydd darllen arall wedi’i brintio a gynhyrchir ar gyfer ymgyrchu fod yn **barchus** ac yn **briodol** a byddant yn cael eu dileu os yw’r Coleg yn barnu eu bod yn amharchus neu’n amhriodol; a gall ymgeiswyr gael eu gwahardd rhag sefyll am y rôl.
3. Rhaid i ymgeiswyr gymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddeunydd wedi’i brintio a’i dynnu o fewn pum diwrnod i ddiwedd y bleidlais.